| CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD AC YNYS MÔN (2011 - 2026) | |
|---|---|
| **ARCHWILIAD CYHOEDDUS:**<br>**Sesiwn Gwrandawiad 9 – Wylfa**<br>**Pwyntiau Gweithredu S9/PG1 – S9/PG10**<br>**Sesiwn Gwrandawiad 7 – Mwynau a Gwastraff**<br>**Pwynt Gweithredu S7 / PG15** | Cyngor Gwynedd Council<br>CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |

**1] Pwynt Gweithredu (S9/PG1) – Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol**

**Paratoi papur sydd yn cyflwyno'r farn gyfreithiol y gellir ei chael parthed cydymffurfiad â Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol, yn egluro sut bydd y Cyngor dal yn gallu gofyn am gyfraniadau addas i ymdrin â gofynion perthnasol ar gyfer seilwaith.**

**1.1. Ymateb y Cynghorau:**

1.2 Mae'r nodyn a gynhwysir yn Atodiad 1 i'r papur hwn yn cyfeirio at gyfyngiad cronni a gynhwysir yn Rheoliad 123 o'r Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 ac yn egluro sut bydd y Cyngor yn gosod rhwymedigaethau cynllunio dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 parthed datblygiadau ar gyfer y dyfodol a hyrwyddir er mwyn sicrhau nad yw'r rhwymedigaethau hynny yn torri'r cyfyngiad cronni o fewn y Rheoliadau.

**2] Pwynt Gweithredu (S9/PG2) – Testun esboniadol**

**Cyflwyno Newid Materion yn Codi i ddarparu eglurder ynghylch blaenoriaethau Cyngor Sir Ynys Môn parthed Wylfa Newydd, gan adeiladu ar egwyddorion a osodwyd yn y cyflwyniad i'r Canllawiau Cynllunio Atodol cyfredol. Os bydd adeiladau parhaol yn cael eu gwagio ac y cytunir ar ddefnydd preswyl parhaol fel defnydd dilynol, dylid cyfeirio at gasgliadau'r LHMA er mwyn rhoi eglurder i hyrwyddwr y prosiect ynghylch math yr unedau tai angenrheidiol o'r cychwyn cyntaf.**

**Egluro 7.3 yn well i gyfeirio at y CCA sydd wedi'i ddiweddaru.**

**Pwynt Gweithredu (S9/PG3) – Polisi TAI 3**

**Cyflwyno Newid Materion yn Codi i ddarparu eglurder ynghylch sgôp y Polisi, h.y. llety modwlar graddfa fechan i weithwyr dros dro.**

**Pwynt Gweithredu (S9/PG4) – Polisi newydd – llety modwlar graddfa fawr i weithwyr dros dro.**

**Cyflwyno Newid Materion yn Codi i gyflwyno polisi newydd sydd yn darparu canllaw clir drwy ddull wedi'i seilio ar feini prawf am ddisgwyliadau / blaenoriaethau'r Cyngor parthed llety modwlar graddfa fawr i weithwyr dros dro (500+ o weithwyr), gan gynnwys seilwaith a chyfleusterau ategol/cefnogol. Adolygu'r hierarchaeth sydd yn cyfeirio'r fath ddatblygiad o fewn aneddiadau fel dewis cyntaf ac ailystyried ai dyna'r dull a ffafrir gan y Cynghorau gan ystyried yr effeithiau tebygol. Sicrhau bod y datblygiad yn cael ei gyfeirio mewn modd nad yw'n niweidio'r cynnig i dwristiaid ar yr Ynys.**

**<u>Pwynt Gweithredu (S9/PG5) − Polisi Newydd − canolfan logisteg</u>**

**Cyflwyno Newid Materion yn Codi i gyflwyno polisi newydd sydd yn darparu canllaw clir am ddisgwyliadau / blaenoriaethau'r Cyngor parthed canolfan logisteg ar gyfer Wylfa Newydd, gan gynnwys canllaw lleoliadol ar ffurf meini prawf dewis safle.**

**<u>Pwynt Gweithredu (S9/PG6) − Polisi Newydd − parcio a theithio</u>**

**Cyflwyno Newid Materion yn Codi i gyflwyno polisi newydd sydd yn darparu canllaw clir am ddisgwyliadau / blaenoriaethau'r Cyngor parthed cyfleuster parcio a theithio ar gyfer Wylfa Newydd.**

**<u>Pwynt Gweithredu (S9/PG10) − Polisi PS 9</u>**

**Cyflwyno Newid Materion yn Codi sydd yn:**

- **egluro'r cyfeiriad at "seilwaith gwyrdd"**
- **dileu maen prawf 7 sydd yn cyfeirio at Reoliadau Cynefinoedd**
- **dileu maen prawf 11 sydd yn cyfeirio at "fanteision cymunedol gwirfoddol"**
- **aralleirio maen prawf 12, gan dynnu'r ddau is-feini prawf a diwygio'r trydydd**
- **ychwanegu maen prawf i gyfeirio at waith cynnar ar y prif safle**

**<u>Pwynt Gweithredu (S7/PG15) − Polisi PS 9</u>**

**Cyflwyno Newid Materion yn Codi i gywiro'r cyfeiriad a wnaed at y safle niwclear presennol i fod yn berthnasol i safle Wylfa Newydd.**

**2.1 <u>Ymateb y Cynghorau:</u>**

2.2 Yn sesiwn gwrandawiad 9 (Wylfa) ar 15 Medi 2016, gofynnwyd i'r Cynghorau adolygu'r canllaw lleoliadol a roddwyd ym mholisi PS9 ac i baratoi is-bolisïau newydd ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau cysylltiedig yn ymwneud â pholisïau Wylfa Newydd. Mae'r Cynghorau wedi ymgymryd â'r gwaith hwnnw ac wedi adolygu Polisi PS9 ac mae is-bolisïau newydd PS9A, PS9B a PS9C wedi'u cyflwyno. Bwriad yr is-bolïsiau yw darparu mwy o ganllawiau lleoliadol ar gyfer lleoli'r datblygiad cysylltiedig.

2.3 Mae'r Cynghorau yn ystyried fod cyfeirio'r Ganolfan Logisteg i safleoedd sydd wedi'u hasesu'n barod fel rhai addas ar gyfer cyflogaeth ac sy'n hygyrch i weithwyr drwy ddulliau cynaliadwy'n gwneud synnwyr cynllunio da. Mae'r Cynghorau yn ystyried ymhellach y dylai cyfleusterau Parcio a Theithio eu lleoli ar safleoedd wedi'u lleoli'n dda at ganolfannau fel bod gan weithwyr ddewis o ddull teithio i'r mannau codi. Yn y ddau achos, mae'r Cynghorau'n ystyried bod lleoliadau cefn gwald ar gyfer y ddau fath o ddatblygiad yn anaddas, yn debygol

o gael effeithiau mwy na safleoedd o fewn neu'n gyferbyn ag aneddiadau, yn enwedig yn nhermau tirwedd, ac ni fyddai'n cyd-fynd â strategaeth ofodol y cynllun.

2.4 Nid yw'r Cynghorau'n ystyried ei fod yn addas iddynt adnabod safleoedd penodol ar gyfer Llety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro (TCWA). Er mwyn gwneud hyn byddai angen iddynt gynnal dadansoddiad penodol, sydd heb gael ei gynnal, ynghyd â chytundeb gyda Horizon cyn iddynt hwy gynnal eu hymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r canllaw lleoliadol a roddwyd yn unol â dull cyson y Cynghorau hyd yma, ynghyd â'r CCA sy'n darparu canllaw sy'n alinio â'r Cynllun sydd ar y gorwel o ran barn y Cynghorau cyn i Horizon Nuclear Power ddewis eu safle. Ceisiodd Polisi TAI 3, fel y'i cyflwynwyd yn Natganiad Gwrandawiad y Cynghorau, gyfeirio at yr angen i ddarparu canllaw lleoliadol a meini prawf i unrhyw raddfa o lety modwlar. Yn ystod y Gwrandawiad fe gafwyd trafodaeth ynglŷn â gwahaniaethu rhwng TCWA graddfa "bach" a graddfa "mawr". Cyfeiriwyd at 500 o lefydd cysgu fel y trothwy perthnasol. Mae'r Cynghorau o'r farn nad yw'r trothwy yn ddim byd mwy na rhif mae Horizon wedi penderfynu fod y lleiafswm sydd ei angen i wneud y math o lety campws mawr ar gyfer gweithwyr maent yn ffafrio yn economaidd iddynt. Nid oes sail cynllunio iddo na thystiolaeth i ddangos mai hwn ydi'r trothwy sy'n gwneud gwahaniaeth yn nhermau ardrawiad. Mae'r Cynghorau o'r farn bod beth sy'n fach neu'n fawr yn farn gymharol a ddylid fod yn seiliedig ar ffeithiau ac amgylchiadau yn gysylltiedig â'r cynnig a maint y gymuned lle bwriedir lleoli'r datblygiad ac ni allir ei benderfynu ymlaen llaw. Byddai gan 501 o lefydd cysgu mewn tref farw fel Caergybi neu Langefni ardrawiadau tra gwahanol i sefyllfa debyg mewn lleoliad pentrefol. Trwy gyflwyno polisi unigol gydag egwyddorion meini prawf ar gyfer pob TCWA 'roedd y Cynghorau o'r farn y byddai'r dull yma yn rhoi'r fframwaith priodol oherwydd byddai'r ardrawiad yn newid yn ôl y ffeithiau a'r amgylchiadau. Ar ôl ystyried sylwadau'r Arolygwyr yn y Gwrandawiadau, mae'r Cynghorau yn cyflwyno nifer o Newidiadau Materion sy'n Codi, sy'n cynnwys newidiadau I Bolisi TAI 3 a chyflwyno Polisi PS 9A, Mae Polisi PS 9A a gyflwynir i ymateb i bwynt gweithredu yn seiliedig ar fod llety dros dro ar ffurf campws graddfa fawr yn angenrheidiol. Tra mai dyma ydi'r safbwynt mae Horizon yn ffafrio nid ydynt wedi cyflwyno tystiolaeth i gefnogi hyn ac nid yw'r Cynghorau wrth ymateb i'r ymgynghoriad cyn cyflwyno cais cam dau yn derbyn bod yr egwyddor wedi cael ei ddangos i fod yn angenrheidiol ac yn dderbyniol.

2.5 Ar ol ystyried sylwadau'r Arolygydd yn y Gwrandawiad mae'r Cynghorau wedi dileu'r dewis cyntaf ar gyfer lleoli TCWA graddfa fawr o fewn ffiniau anheddle yn unol â'r cyfarwyddyd a gafwyd gan yr Arolygydd. Heb anghofio barn y Cynghorau am y trothwy, mae'r polisi drafft PS 9A yn cyfeirio TCWA graddfa fawr (mwy na 500 o lefydd gwely) at safleoedd ar ymylon aneddleoedd neu'n agos at anheddle ar y prif lwybrau trafnidiaeth ac oddi wrth gefn gwlad agored. Mae'r Cynghorau'n cadw at y farn y dylai'r ffafriaeth nesaf ar gyfer y math yma o ddatblygiad fod gyferbyn â, neu'n agos at, ffiniau anheddle aros yr un fath. Mae'r dull hwn yn gyson â'r dull a gymerwyd hyd yma, gan gynnwys yn y Canllaw Cynllunio Atodol. Darparodd y Cynllun Adnau a'r canllaw hwnnw hierarchaeth i leoli datblygiad sydd yn ffafrio cael ei leoli'n agos at aneddleoedd mwy'r Cynllun dros gefn gwlad agored. Mae hefyd yn berthnasol nodi bod y CCA wedi'i seilio ar dystiolaeth, yn amodol ar arfarniad cynaliadwyedd, wedi'i baratoi mewn modd i alinio gyda'r Cynllun sydd ar y gorwel, wedi'i ymgynghori arno'n gyhoeddus ac wedi'i gymeradwyo gan Aelodau.

2.6 Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn y polisi drafft diwygiedig yn gyson â hwnnw a ddefnyddiwyd yn natblygiad *Land and Lakes* ar ymylon Caergybi ble bwriedir cartrefu 3,500 o weithwyr dros dro. Mae effeithiau'r datblygiad hwnnw ar yr anheddle wedi'i reoli'n briodol ac mae caniatâd wedi'i roi. Mae'r Cynghorau'n ystyried bod hyn yn dangos y gellir lleoli'r datblygiadau'n addas mewn lleoliadau cynaliadwy, ar ymylon anheddle er y byddai'n rhaid i bob un ei gymesur i faint yr anheddiad dan sylw. Mae'r dull a gyflwynwyd ym Mholisi drafft PS9A y Cynghorau felly'n gyson â hwnnw a ymgynghorwyd arno'n gyhoeddus, wedi'i gymeradwyo gan Aelodau ac wedi'i fabwysiadu mewn datblygiadau tebyg eraill.

2.7 Mae'r Cynghorau wedi diwygio'r meini prawf lleoli gan ystyried y sylfaen tystiolaeth, ac ystyried y byddai'r dull o gyfeirio gweithwyr dros dro graddfa fawr i gefn gwlad agored yn groes i ddull cyffredinol y cynllun a'i amcanion cynaliadwyedd. Ni fyddai lleoliad cefn gwlad agored yn adlewyrchu ar brif ddewisiadau'r Cynghorau i ddefnyddio datblygiad dros dro i agor cyfleoedd newydd mewn lleoliadau cynaliadwy a chynnig y deilliant gorau ar gyfer yr ardal. Mae'n annhebygol gallir cael etifeddiaeth dderbyniol ar gyfer safleoedd yng nghefn gwlad agored, ac felly ni fyddant yn gwneud cyfraniad parhaol i'r Ynys yn lle'r pwysau ddaw am fod yn gartref i ddatblygiad o'r math yma.

2.8 Gweler y Polisi TAI 3 diwygiedig yn Atodiad 2. Dengys ddiwygiadau i adran 7.3, sydd yn cynnwys Polisi PS 9 diwygiedig a Pholisïau PS 9A hyd at 9C yn Atodiad 3.

2.9 Mae'r Cynghorau wedi bod mewn cyswllt â Horizon ynghylch y diwygiadau i'r polisïau hyn. Darparodd Horizon ddrafft o'r geiriad polisi yr oeddent yn ei ffafrio i'r Cynghorau ac ystyriwyd hyn wrth baratoi drafft y Cynghorau. Ni dderbyniodd y Cynghorau nifer o bwyntiau allweddol yn nrafft Horizon. Rhoddwyd cyfle i Horizon weld draft diwygiedig y Cynghorau, ynghyd â chyfle iddynt wneud sylw arno, cyn iddo gael ei gyflwyno a bu iddynt gyflwyno awgrymiadau. Adolygodd y Cynghorau'r diwygiadau hyn a derbyniwyd nifer o bwyntiau bychan ond parhaodd anghytuno ar rai o'r egwyddorion allweddol. Ni all y partïon gyrraedd consensws sydd yn caniatáu iddynt gyflwyno drafft cytunedig.

2.10 Mae Horizon wedi gwrthwynebu'n gryf i ddewis parhaus y Cynghorau tuag at TCWA i gael ei leoli gyferbyn ag anheddiadau. Fodd bynnag, mae eu polisi drafft PART B yn dweud y byddai TCWA "wedi'i gyfeirio at naill ai dir y tu allan i ffiniau datblygu Canolfannau neu Bentrefi Gwasanaeth neu dir gyferbyn â ffiniau datblygu Canolfannau neu Bentrefi Gwasanaeth." Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'r drafft hwnnw wrth gwblhau eu cynnig eu hunain. Mae'r Cyngor angen i safleoedd gyferbyn â aneddleoedd gael eu diystyru cyn i leoliadau cefn gwlad allu eu hystyried. Mae'r Cynghorau am roi gwybod nad ydi Horizon yn cytuno gyda'r polisiau drafft.

## <u>3] Pwynt Gweithredu (S9/PG7) − Polisi TRA 1</u>

**Cyflwyno Newid Materion yn Codi sydd yn gosod y newidiadau canlyniadol a fydd eu hangen er mwyn adlewyrchu'r pwyntiau gweithredu y cyfeiriwyd atynt yn S9/PG4, S9/PG5 ac S9/PG6**

### 3.1 <u>Ymateb y Cynghorau</u>

3.2 Mae Atodiad 4 yn nodi diwygiadau bychain i Bolisi TRA 1 i sicrhau ei fod, ynghyd â Pholisïau PS9 (B) a PS9 (C), wedi'u halinio, ac i ailgyflwyno bwriad yn ymwneud â gwelliannau i'r A5025.

## <u>4] Pwynt Gweithredu (S9/PG8) − Polisi TAI 8</u>

**Cyflwyno Newid Materion yn Codi i fireinio'r Polisi er mwyn sicrhau:**

- **bod ei sgôp yn gliriach**
- **cysondeb gyda Pholisi TWR 3**
- **ei fod yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Cyngor i gynnal neu wella'r sector twristiaeth**

**4.1 Ymateb y Cynghorau**

4.2 Mae Atodiad 5 yn nodi diwygiadau bach i Bolisi TAI 8. Tynnir maen prawf 8 er mwyn alinio gyda dyfarniad Uchel Lys: Isaac Youssef Khodari yn erbyn Bwrdeistref Frenhinol Kensington a Chelsea (10/11/15). Mae'r dyfarniad hwn yn nodi bod heblaw mewn amgylchiadau eithriadol, ni ellir gofyn am ffi monitro mewn cytundeb adran 106. Fe wnaeth y Llys yn yr achos hwn nodi y gall fod amgylchiadau cyfyngedig iawn lle gellid cyfiawnhau ffi monitro mewn amgylchiadau "eithriadol" (er enghraifft, datblygiad ar raddfa mawr iawn neu isadeiledd trafnidiaeth neu ynni o arwyddocâd cenedlaethol). Mae Polisi TAI 8 yn cyfeirio at ddatblygiad sy'n gysylltiedig ag isadeiledd ynni cenedlaethol sylweddol nid i'r prosiect isadeiledd ei hun. Felly, byddai'n amhriodol i'r Polisi fynnu trefniant o'r fath. Mae hyn yn gost y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ysgwyddo'r cyfrifoldeb amdano.

**5] Pwynt Gweithredu (S9/PG9) − Polisi TAI 2**

**Cyflwyno Newid Materion yn Codi i ddarparu eglurder ynghylch cyfleoedd i hwyluso tai amlfeddiannaeth (HMOs), gan wneud y gorau o ddefnydd adeiladau presennol.**

**5.1 Ymateb y Cynghorau**

5.2 Mae Atodiad 6 yn nodi diwygiadau bach i baragraff 7.4.13A